# Y Gwanwyn – Croesawu'r Adar Mudol

**Cysyniadau:** **Sylwi, rhyfeddu.**

**Amcan:** **Arwain y plant i werthfawrogi a rhyfeddu at fyd Duw.**

**Cyfarpar:** **Lluniau o'r gwanwyn.**
**Llun y gog a'r wennol.**

**Cyflwyniad:**

● Holi'r plant beth mae'r darlun yn ei gyfleu. Gellir dangos lluniau o goed yn blaguro, neu adar yn nythu.

● Gyda hyn bydd yr adar mudol yn cyrraedd. Rhain ydi'r adar sydd wedi treulio'r gaeaf mewn gwledydd cynhesach. Roedden nhw efo ni dros y gwanwyn a'r haf llynedd ond ar ddechrau tymor yr hydref fe aethon nhw'n ôl i wledydd cynhesach. Pam, tybed? (Y rheswm ydi fod y tywydd yn oeri a'r bwyd yn prinhau. Adar yn dibynnu ar bryfed ydi'r adar mudol.) Gellir dangos llun o'r wennol a'r gog ar y bwrdd gwyn. Erstalwm roedd pobl yn credu bod yr adar mudol yn gaeafgysgu mewn llynnoedd ac afonydd.

**Trafodaeth bellach:**

● Sut ydyn ni'n gwybod bod yr adar mudol yn mynd o un wlad ac o un cyfandir i'r llall? (Trwy fodrwyo'r adar, ond bellach mae modd eu dilyn gyda geoleolwr (geolocater) sef teclyn bychan, electronig sy'n cael ei roi ar wegil yr aderyn a gellir dilyn trywydd yr aderyn i pa le bynnag y mae'n mynd yn y byd trwy gyfrwng lloeren.) I fyny i ryw bum mlynedd yn ôl doedd neb yn gwybod yn union i ble'r oedd y gog yn mynd yn ystod y gaeaf. Erbyn hyn, gwyddom fod y gog yn treulio'r gaeaf yn fforestydd y Congo, yn Affrica.

● Sut mae'r adar yn gwybod pa ffordd i fynd? Does ganddyn nhw ddim map na sat-nav. Yn ystod y dydd mae'r adar yn dilyn llwybr yr haul ac yn ystod y nos yn dilyn patrwm y sêr. Pan fydd hi'n niwlog bydd llawer o'r adar yn mynd ar goll. Maen nhw hefyd yn dilyn patrymau arbennig yn nhirwedd y ddaear, e.e. dilyn dyffrynnoedd ac afonydd. Yn ogystal â hyn mae gwyddonwyr wedi darganfod bod adar yn gallu arogli arogl y ddaear ac yn dilyn y trywydd hwn.

● Oes yna greaduriaid eraill sy'n ymfudo? Oes, mae glöynnod byw, mamaliaid a physgod yn ymfudo.

**Myfyrdod:**

● Arwain y plant i barchu a rhyfeddu at y byd o'u cwmpas. Rhyfeddu at y daith o 6,000 milltir o Affrica i Gymru. Mae'r wennol yn dychwelyd i'r union ardal a'r union adeilad lle bu'n nythu llynedd.

● Annog y plant i ryfeddu at reddf y gog i ddodwy mewn nythod adar eraill. Mae'n rhaid cofio bod y gog yn dodwy wyau yn nythod yr un rhywogaeth o flwyddyn i flwyddyn. Fydd yr iâr ddim yn penderfynu dodwy mewn nyth aderyn cwbl wahanol (o rywogaeth wahanol). Mae iâr yn cymryd oddeutu 11 eiliad i ddodwy wy ac i ddwyn wy o'r nyth yn ei phig.

● Mae'r cyw gog ar ôl iddo ddeor yn taflu'r wyau eraill o'r nyth ac yn y diwedd dim ond y cyw gog fydd yn llenwi'r nyth. Bydd y rhieni maeth yn bwydo'r cyw nes y bydd yn barod i hedfan. Erbyn hynny, bydd yr iâr gog ar ei ffordd i Affrica. Tua diwedd Awst y bydd y cyw gog yn cychwyn ar ei daith ar ei ben ei hun. Cofiwch does ganddo ddim map na sat-nav!

**Emyn: Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn: Caneuon Ffydd 136**

**Dyfyniad o'r Beibl:**
Mae'r Beibl yn dweud bod yr adar yn gwybod pa bryd i fudo:
Mae'r crëyr yn gwybod pryd i fudo,
a'r durtur, y wennol a'r garan. Jeremeia 8:7 beibl.net

**Munud i feddwl:**
Mae tymor y gwanwyn yn codi calon a rhoi bywyd newydd i ni.

**Amser y Gwcw:**
Fy amser i ganu yw Ebrill a Mai
A hanner Mehefin chwi wyddoch bob rhai.

**Myfyrdod/Gweddi:**
Diolch i ti, O Dduw, am dymor y gwanwyn. Tymor pan mae popeth ar ei orau. Tymor y tyfu. Diolch bod yr adar mudol wedi dod yn ôl a bod yr adar i gyd wrthi'n brysur yn nythu. Diolch. Amen.